

From: Thomas, Branwen (EPS - WLD)
Sent: 09 February 2016 13:17
To: 'Cefin Campbell'; Penri, Awen (EPS - WLD)
Subject: ATB/RE: Ymchwil Addysg Bellach Cyfrwng Cymraeg

Helo Cefin

Dwi wedi trefnu stafell ym Medwas am 10 o'r gloch i fideo gynadledda efo fi yng Nghaernarfon ar Chwefror 24ain. Gobeithio fod hyn yn gyfleus i ti.

Cofion
Branwen

[Branwen Thomas](#)

From: Cefin Campbell
Sent: 09 February 2016 12:50
To: Penri, Awen (EPS - WLD)
Copi/Cc: Thomas, Branwen (EPS - WLD)
Subject: RE: Ymchwil Addysg Bellach Cyfrwng Cymraeg

Helo Awen,

Diolch am gytuno i gyfarfod gyda ti a Branwen. Mae'r 24ain Chwefror yn gyfleus iawn. Wyt ti am gynnig amser – mae'r diwrnod cyfan yn rhydd gyda fi ar hyn o bryd?

Fe gysylltaf eto ynglŷn â data LLWR.

Cofion.

Cefin.

From: Penri, Awen (EPS - WLD)
Sent: 08 February 2016 15:18
To: Cefin Campbell
Cc: Thomas, Branwen (EPS - WLD)
Subject: RE: Ymchwil Addysg Bellach Cyfrwng Cymraeg

Helo
Sut mae'r hwyl?

Hapus i gwrdd i drafod yr isod, a byddwn i am i Branwen fod yn rhan o'r drafodaeth hefyd.

Fe wnaetho ni gyhoeddi adroddiad ar yr hyrwyddwyr dwyieithrwydd y llynedd <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140925-welsh-medium-education-strategy-bilingual-champions-cy.pdf>

Y 24ain o Chwefror yw'r diwrnod cyntaf allwn ni gwrdd oherwydd hanner tymor wythnos nesaf. Ydy hwn yn gyfleus?

O ran data LLWR – bydd angen i ni wybod pa ddata yn union sydd angen, gan bod angen gofyn i'r tim ystadegol am hyn?

Yn amlwg, mae'r data diweddaraf yn yr adroddaid blynyddol ar y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae data yn adroddiad yr hyrwyddwyr uchod – ai'r un data sydd ei angen?

Hwyl

Awen

Awen Penri

Pennaeth Cangen Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg • Head of Welsh in Education Development Branch

Is-adran y Gymraeg • Welsh Language Division

Yr Adran Addysg a Sgiliau • Department for Education and Skills

Hapus i gyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg

Happy to communicate in Welsh or English

From: Cefin Campbell]

Sent: 04 February 2016 15:59

To: Penri, Awen (EPS - WLD)

Subject: Ymchwil Addysg Bellach Cyfrwng Cymraeg

Annwyl Awen,

Ymchwil i Sefyllfa Gyfredol Addysg Cyfrwng Cymraeg mewn Colegau Addysg Bellach

Mae *Sbectrum* wedi cael comisiwn gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynnal yr ymchwil uchod a chyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r ymchwil yn edrych ar agweddau penodol o waith y colegau, gan gynnwys:-

- Cyfrwng y ddarpariaeth
- Cyfrwng yr asesiadau
- Patrymau dilyniant ieithyddol o'r uwchradd i addysg bellach
- Cynllunio'r cwricwlwm
- Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddewis ieithyddol myfyrwyr
- Adnoddau ariannol a dynol
- Swyddogaeth Rheolwyr y Gymraeg

Mae'r fethodoleg yn cynnwys:

- Holiadur i bob coleg er mwyn casglu data
- Ymweliad â 6 choleg unigol fydd yn cynnwys cyfweiliadau gyda'r Pennaeth neu aelod o'r uwch-dîm rheoli a grwpiau ffocws o blith staff a myfyrwyr
- Cyfweiliadau gyda sefydliadau allweddol yn y maes e.e Llywodraeth Cymru, Colegau Cymru, CYDAG

Yn sgîl y pwynt bwled olaf uchod, tybed a fyddai modd i mi drefnu cyfarfod gyda ti neu swyddog perthnasol o'r Uned er mwyn cael darlun cyffredinol o'r sefyllfa yn ein colegau addysg bellach. Byddwn hefyd yn falch iawn o gael copi o ddata perthnasol (LLWR) i'r sector cyfrwng Cymraeg/dwyieithog sy'n dangos y cynnydd o ran niferoedd a chanrannau dros y blynyddoedd diwethaf.

A fyddai modd i ti awgrymu rhai dyddiadau yn ystod yr wythnos nesaf pan fyddai'n gyfleus i ni gwrdd, neu anfon manylion cyswllt rhywun arall o'r Uned fyddai'n gallu ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyf.

Cofion cynnes,

Cefin.

Cefin Campbell

Rheolwr Gyfarwyddwr/*Managing Director*

Sbectrwm